




Mae'r Rhaglen Ysgolheigion yn cynnig cyfle unigryw i ddisgyblion CA2 o ysgolion cynradd annetholus i weithio gydag ymchwilydd PhD hyfforddedig i dreiddio i feysydd pwnc newydd a chyffrous, ennill cefnogaeth amhrisiadwy i wella eu sgiliau academaidd a chael profiad o ddysgu arddull prifysgol. Mae'r rhaglen yn datblygu sgiliau astudio disgyblion, eu gwybodaeth academaidd a'u hunanhyder, gan eu galluogi i lwyddo yn yr ysgol yn awr ac i ystyried y brifysgol fel opsiwn dichonadwy yn y dyfodol.


### Mae'r Rhaglen Ysgolheigion yn cynnig:


- Rhaglen ddysgu heriol a chefnogol a addysgir gan ymchwilydd o safon fyd-eang
- Profiad o ddysgu arddull prifysgol mewn grŵp bach
- Dau ddigwyddiad gyda phrifysgolion cystadleuol
- Dysgu y tu hwnt i'r Cwricwlwm Cenedlaethol i helpu tanio angerdd am ddysgu

### Ein hysgolion partner



 Rydyn ni'n elusen genedlaethol

 Mae 40+ o brifysgolion partner yn ein cefnogi

 Dros y pum mlynedd nesaf, rydym yn anelu at gefnogi 100,000 o fyfyrwyr ledled y Deyrnas Unedig

### Enghraifft o'n cyrsiau

Y Galon Iach

Cemeg Cacen Gwpan

Beth yw Tegwch?

Dweud Celwydd gydag Ystadegau

Grym i'r Bobl?

# Ymunwch â'r clwb

Cymru



### Pam cymryd rhan?

- Mae disgyblion yn datblygu sgiliau astudio allweddol, a fydd yn cefnogi eu rhagoriaeth dysgu nawr ac yn y dyfodol
- Mae gan raddedigion y Rhaglen Ysgolheigion hyder cynyddol yn eu gallu i gyflawni
- Mae ysgolion yn cael adroddiadau effaith cadarn sy'n arddangos defnydd o'r Grant Datblygu Disgyblion
- Mae'r rhaglen yn cefnogi ysgolion i fodloni Fframwaith Arolygu Addysg Estyn a chyflawni Meincnodau Gatsby



*Dwi'n meddwl bod y rhaglen yn fuddiol iawn ac wedi rhoi mewnwelediad i fy mab ar sut beth fyddai mynd i brifysgol o'r radd flaenaf. Fe'i helpodd i ddod yn fwy penderfynol a chael ffocws i wneud hynny.*

*Rhiant, Caerdydd*



### Effaith y Rhaglen

Am y bumed flwyddyn yn olynol, mae gwerthusiad gan UCAS wedi dangos bod graddedigion y Rhaglen Ysgolheigion yn fwy tebygol o **wneud cais i, derbyn cynnig a symud ymlaen i** brifysgol hynod ddewisol.

Mae'r data yn dangos cydberthynas rhwng **llwyddiant ar y rhaglen a chyrchfannau prifysgol**: roedd disgyblion ar y Rhaglen Ysgolheigion a gyflwynodd eu haseiniad terfynol a graddio o'r rhaglen yn fwy tebygol o gofrestru mewn prifysgol hynod ddewisol **(48%)** na'u cyfoedion na chwblhaodd y rhaglen **(28%)**.

48%

28%

## Taith y disgybl



Cynllunio rhaglen wedi'i gefnogi gan Swyddog Rhaglen Ysgolheigion.

Mae digwyddiad lansio a gynhelir gan y Brifysgol yn rhoi cyfle i ddisgyblion ddysgu am Addysg Uwch.



Tiwtor PhD yn darparu sesiynau tiwtorial wythnosol.

Mae disgyblion yn cwblhau aseiniad terfynol heriol ac yn cael adborth un-i-un gan diwtoriaid.



T7

Yna cynhelir digwyddiad graddio mewn prifysgol i ddathlu cyflawniad disgyblion.

Rydym yn darparu adroddiadau effaith manwl yn amlinellu cynnydd disgyblion.



## Ystyried cynnal lleoliadau lluosog?

Ysgol Gymunedol Priory Lane ac Academi Gymunedol Melior

Ysgol Gynradd Fwydo 7-11 oed



Ysgol Uwchradd Allweddol 14-16 oed



Bu'r rhaglen mor llwyddiannus fel ein bod wedi cofrestru ar gyfer lleoliad CA4 pellach ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf a hefyd rhaglen CA2 ar gyfer ein darpar fyfyrwr.

Athro Arweiniol



Roedd yn gyfle gwych i ddysgu pwnc newydd nad wyf yn cael y cyfle i astudio yn yr ysgol. Ar ddechrau'r rhaglen roeddwn i braidd yn bryderus gan nad oeddwn yn gwybod beth i'w ddisgwyl. Ar ôl cwblhau'r rhaglen rydw i nawr yn teimlo'n hyderus ynglŷn â mynd i'r brifysgol gan fy mod i'n gwybod mwy am sut maen nhw'n addysgu.

Rhaglen Ysgolheigion Cyn-fyfyrwr



## Pryd i gofrestru

Gallwch gofrestru unrhyw bryd. Fodd bynnag, rydym yn eich cynghori i gofrestru cyn y dyddiadau cau isod:

Tymhorau a gynigir:

Cofrestrwch erbyn:

Hydref (Hydref – Chwefror)

Gorffennaf

Gwanwyn (Ionawr – Mai)

Hydref

Haf (Mawrth – Gorffennaf)

Rhagfyr

## Sut i Ymuno â'r Clwb

Cyfraniad yr ysgol yw £183 y disgybl, cyfanswm o £2,562 y lleoliad, sy'n cynnwys 14 disgybl. Mae'r gost hon yn cael cymhorthdal trwy gyfraniadau gan ein partneriaid prifysgol a grantiau a rhoddion allanol.

**Diddordeb mewn rhedeg y Rhaglen Ysgolheigion ar draws grŵp o ysgolion? Cysylltwch i drafod ein pecynnau grŵp/dewisiadau aml-leoliad.**

E-bost: [tspschools@thebrilliantclub.org](mailto:tspschools@thebrilliantclub.org)

Ymholwch ar-lein: [thebrilliantclub.org/the-scholars-programme/for-schools/the-programme/](https://thebrilliantclub.org/the-scholars-programme/for-schools/the-programme/)

## Dethol disgyblion

Mae'r Clwb Gwych yn mynnu bod o leiaf 55% o ddisgyblion sydd wedi'u cofrestru ar y rhaglen yn bodloni o leiaf un o'r meini prawf canlynol:

- Cymwys am Grant Datblygiad Disgyblion
- Dim hanes rhieniol o addysg uwch
- Amddifadedd yn ôl cod post

